**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**

**CYFARFOD I DRAFOD TREFNIADAU I NODI JIWBILI BLATINWM EM ELISABETH 11 YM 2022.**

**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN 17.03.2022 @ 6.30PM**

**1. YN BRESENNOL**

Ceinwen Goodwin (CG)

Cyngh. Clare Hughes (CH)

Cyngh. John Jones (JJ)

Cyngh. Mair Jones (MJ)

Cyngh. Wil Lewis (WL)

Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies (I Ll-D)

Cyngh Gareth Owen (Chair) (GO)

Cyngh. Alun Price-Jones (AP-J)

Cyngh. Doug Rowbotham (DR)

Jan Weetch (JW)

YMDDIHEURIADAU

Cyngh. Angharad Jones (AJ)

Cyngh. Non Jones (NJ)

**2. Jiwbilî Blatinwm Ei Mawrhydi y Frenhines ym 2022**

Y mae'n bosibl wneud cais am arian gan y Loteri Genedlaethol i nodi Jiwbilî Batinwm Ei Mawrhydi y Frenhines ym 2022. Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn derbyn ceisiadau gan gymunedau sy'n datblygu prosiectau sy'n costio llai na £10,000 i ymuno â'r dathliadau. Dylai prosiectau fodloni nodau safonol a meini prawf cymhwysedd y rhaglen grant. Er nad yw'n hanfodol, bydd y prosiectau cryfaf hefyd yn bodloni tri maes ffocws: hyrwyddo perthnasoedd ar draws cenedlaethau; datblygu sgiliau a phrofiad cymunedau; annog gofalu am/gweithredu yn y byd naturiol fel rhan o'r dathliadau. Hefyd yn derbyn ceisiadau am ddigwyddiadau untro ar ddiwrnod y Jiwbilî sy'n bodloni'r maen prawf hwn. Bydd y ceisiadau cryfaf yn dangos effaith barhaol y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun ac mae'n debygol y bydd y Loteri'n derbyn mwy o geisiadau nag y gall ei ariannu.

Ewch i Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru | Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (tnlcommunityfund.org.uk) am wybodaeth.

**Penderfynwyd ceisio am y grant.**

3. **Ystyriwyd y gweithgareddau canlynol** ar gyfer dydd Gwener 3 Mehefin 2022 (yn dibynnu ar Reoliadau Covid-19 Llywodraeth Cymru)
   - **3.1** Dychwelyd 70 mlynedd mewn amser a chynnal cystadlaethau oedd yn boblogaidd yr adeg hynny ee ras 3 coes; wy a llwy; rasys cyfnewid, gêm tynnu rhyfel.
   - **3.2** Castell Neidio.
   - **3.3** Swigod Mawr: citiau
   - **3.4** Balwnau- heliwm?
   - **3.5** Baneri
   - **3.6** Bwyd: pawb I ddod â bwyd. Ffafriwyd te prynhawn (2-4pm); trafodwyd bwyd a odd yn boblogaidd 70 mlynedd yn ôl.
   - **3.7** Ystyriwyd fan hufen-iâ. Ni benderfynwyd petai unigolion yn talu am hufen- iâ.
   - **3.8** Alcohol**:** ni benderfynwyd pe caniateir alcohol.
   - **3.9** **Mygiau Jiwbilî:** I'w cyflwyno I holl ddisgyblion ysgol y Bont ac Ysgol Feithrin. Cytunwyd I ddarganfod y gost erbyn y cyfarfod nesaf (CH) wrth gysylltu â chwmni masnachol yn Nhregaron.
   - **3.10** **Gwobrau**: medalau; rhubanau.

4. **Crynodeb**
   Bydd JW. CG a'r Gyngh. CH yn cyfarfod ddydd Sul nesaf I drafod y cais am grant ac I adrodd yn ôl yn y cyfarfod misol nesaf. Amserlen y dathliad yn y drefn hon: Mabolgampau; te prynhawn, dosbarthu mygiau. Amser cychwyn 2pm. GO I gysylltu â'r ysgol am drefniadau parthed y mygiau, bynting, castell neidio, mabolgampau.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.10pm.

============================================================
=